SL(5)381 - Rheoliadau Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymwysterau) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Deddf 2016) sy'n ymwneud â rheoleiddio gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru. Gwneir diwygiadau hefyd i Ddeddf 2016 sy'n ymwneud ag eithriadau i gwmpas gwasanaethau eirioli rheoleiddiedig, i ddiwygio cyfeiriadau at Gyfreithwyr Ewropeaidd, ac i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Mae'r gwelliannau hyn yn ofynnol er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd heb gytundeb.

Gweithdrefn

Cadarnhaol (dyrchafwyd o'r negyddol arfaethedig ar argymhelliad y Pwyllgor, ar ôl gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.3B).

Materion technegol: craffu

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(i) - ei bod yn ymddangos bod amheuaeth a yw *intra vires*

Fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol: "these Regulations revoke the sections in the 2016 Act which relate to temporary and occasional service provision in Wales by social care professions, as they rely on reciprocal arrangements with the EEA which will no longer apply once the UK leaves the EU".

Ymddengys fod hyn yn dileu trefniant dwyochrog o fath a grybwyllir yn adran 8(2)(c) neu (e) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (Deddf 2018). Os felly, dywed paragraff 4 o Atodlen 2 i Ddeddf 2018 nad oes gan Weinidogion Cymru ddim pŵer i wneud y Rheoliadau oni bai eu bod wedi ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol.

Nid oes unrhyw arwydd bod ymgynghoriad o'r fath wedi digwydd, naill ai yn y rhagarweiniad i'r Rheoliadau nac yn y Memorandwm Esboniadol. Felly, ychydig o ddewis sydd gennym ond i gwestiynu a all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau hyn.

Rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru gadarnhau:

(a) a yw'r Rheoliadau yn dileu trefniant dwyochrog o fath a grybwyllir yn adran 8(2)(c) neu (e) o Ddeddf 2018, a

(b) os ydynt, a yw Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol.

Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Yn ein hadroddiad ar y Rheoliadau hyn yn ystod y cyfnod sifftio, mynegwyd pryder gennym am yr effaith y gallai'r Rheoliadau hyn ei chael ar ddarpariaeth gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Rydym yn croesawu ymateb Llywodraeth Cymru i'r pryder hwn fel y nodir ym mharagraff 2.4 o'r Memorandwm Esboniadol, sy'n datgan:

> "The Committee's concerns about the potential impact of the Regulations are noted but assurance is provided that any impact has been assessed as being very limited. No European workers have ever been registered on the visiting social care workforce registers maintained by Social Care Wales (SCW) which relate to the provision of temporary and occasional services by social workers and social care managers. It should also be noted that as at February 2019 there were fewer than 100 EU nationals registered as social workers or social care managers with SCW. Those who are already registered with SCW will be continue to be so registered post-exit day, and new applicants for registration from the EEA or Switzerland will be able to make the same application for registration as currently applies to international social care professionals.".

Ymateb y Llywodraeth

1. **Pwynt Craffu Technegol o dan Reol Sefydlog 21.2(i) - ei bod yn ymddangos bod amheuaeth a yw intra vires**

Mae'r Llywodraeth yn cadarnhau nad yw'r Rheoliadau yn dileu trefniant cilyddol o fath a grybwyllir yn adran 8(2)(c) neu (e) o Ddeddf 2018. Llywodraeth y DU sydd wedi bod yn gyfrifol am ddileu'r trefniadau cilyddol y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau.

Mae Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd 2005/36/EC ("Cyfarwyddeb 2005") yn hwyluso symudiad rhydd proffesiynolion rhagnodedig ar draws yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) a'r Swistir drwy nodi fframwaith cilyddol o reolau ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol. Tra bo'r DU yn parhau i fod yn Aelod-wladwriaeth, gall ei dinasyddion gael budd o'r trefniadau cilyddol y mae Cyfarwyddeb 2005 yn darparu ar eu cyfer.

Gweithredir Cyfarwyddeb 2005 ar hyn o bryd yn y DU drwy brif gyfres o reoliadau sy'n nodi'r dull gweithredu cyffredinol, sef Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2015 ("Rheoliadau 2015") ac wedyn rheoliadau penodol ar gyfer y sectorau. Ar gyfer y proffesiynau gofal cymdeithasol, y ddeddfwriaeth benodol ar gyfer y sector yw Rheoliadau Cymwysterau Ewropeaidd (Proffesiynau Iechyd a Gofal Cymdeithasol) 2016 ("Rheoliadau 2016"). Mae Rheoliadau 2016 yn gweithredu, yn y DU, ddiwygiadau a wnaed i Gyfarwyddeb 2005 ynghylch cydnabod cymwysterau proffesiynol ac yn cynnwys diwygiadau canlyniadol i nifer o Ddeddfau ac offerynnau statudol er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i'r Gyfarwyddeb, gan gynnwys diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn cyfeirio'n benodol at y trefniadau cilyddol ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol o dan Gyfarwyddeb 2005, fel y'i gweithredwyd gan Reoliadau 2015 a chan y diwygiadau a wnaed gan Reoliadau 2016. Fodd bynnag, dim ond tra bo'r DU yn parhau i fod yn Aelod-wladwriaeth o'r UE y bydd y trefniadau cilyddol o dan Gyfarwyddeb 2005 yn gymwys o ran Cymru. Ar ôl y diwrnod ymadael, oni bai y gwneir unrhyw gytundeb i'r gwrthwyneb rhwng yr UE a Llywodraeth y DU, bydd y trefniadau cilyddol hyn yn peidio â bod yn gymwys yng Nghymru ac yn y DU gyfan, am na fydd y DU yn Aelod-wladwriaeth o'r UE mwyach. Bydd hyn yn digwydd er gwaethaf unrhyw ddiwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn.

Mae'r Rheoliadau hyn felly yn adlewyrchu'r ffaith y bydd y trefniadau cilyddol o dan Gyfarwyddeb 2005 yn peidio â bod yn gymwys yng Nghymru, o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE ar y diwrnod ymadael. Felly, bydd angen dileu'r holl gyfeiriadau at y trefniadau cilyddol hyn o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Yn hynny o beth, nid yw'r Rheoliadau hyn ond yn cywiro diffygion yn Neddf 2016 sy'n codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE, ac nid ydynt ynddynt eu hunain yn dileu unrhyw drefniadau cilyddol o'r fath.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 18 Mawrth 2019 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau technegol uchod a nodwyd a hefyd i dynnu sylw at faterion sy'n codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.